

# Nodi'n gynnar – canllawiau ymarfer effeithiol



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

*Canlyniadau gwell i bobl ifanc*

**Nodi'n gynnar**



Mae'r ddogfen hon yn  
cefnogi Adran 2 o'r Fframwaith  
ymgysylltu a datblygu ieuencid

# Nodi'n gynnar – canllawiau ymarfer effeithiol

- Cynulleidfa** Mae'r ddogfen hon ar gyfer awdurdodau lleol yn bennaf. Fodd bynnag, yng nghyd-destun y *Fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuenctid* mae'n berthnasol i bawb sy'n gweithio yn y system addysg a hyfforddiant ac yn helpu pobl ifanc i ymgysylltu â datblygu mewn addysg a hyfforddiant gan gynnwys Gyrfa Cymru, pobl sy'n gweithio yn y gwasanaeth ieuenctid a darparwyr addysg a hyfforddiant (ysgolion, colegau addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith).
- Trosolwg** Mae'r ddogfen hon yn cefnogi'r *Fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuenctid*. Mae'n rhoi rhagor o wybodaeth i bartneriaid, yn enwedig awdurdodau lleol, wrth iddynt ddatblygu system nodi'n gynnar fel rhan o'r fframwaith.
- Camau i'w cymryd** Mae'r fframwaith yn nodi y disgwylir i bob awdurdod lleol ddatblygu system nodi'n gynnar. Dylai'r elfen nodi'n gynnar fod yn un o'r blaenoriaethau cyntaf a dylid ei gweithredu cyn gynted ag y bo modd a chyn mis Medi 2014 fan bellaf. Dylai cynllun ar gyfer gweithredu'r elfen hon fod wedi'i sefydlu erbyn mis Mawrth 2014.
- Rhagor o wybodaeth** Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:  
Is-adran Ymgysylltiad a Chyflogaeth Pobl Ifanc  
Yr Adran Addysg a Sgiliau  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ  
e-bost: [youthengagementandprogression@cymru.gsi.gov.uk](mailto:youthengagementandprogression@cymru.gsi.gov.uk)
- Copiau ychwanegol** Gellir cael y ddogfen hon ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru yn [www.cymru.gov.uk/addysgsgiliau](http://www.cymru.gov.uk/addysgsgiliau)

# Cynnwys

<b>Cyd-destun</b>	<b>2</b>
<b>Adran 1: Amcanion</b>	<b>3</b>
<b>Adran 2: Datblygu system nodi'n gynnar</b>	<b>5</b>
<b>Adran 3: Heriau a nodwyd a dewisiadau i'w harchwilio</b>	<b>16</b>
<b>Adran 4: Amlinelliad o'r prif gamau er mwyn datblygu system nodi'n gynnar</b>	<b>18</b>
<b>Adran 5: Rhestr wirio ar gyfer system nodi'n gynnar</b>	<b>19</b>
<b>Cyfeiriadau</b>	<b>21</b>
<b>Atodiad A: Templed cylch gorchwyl grŵp llywio strategol</b>	<b>22</b>
<b>Atodiad B: Templed cytundeb rhannu data</b>	<b>25</b>
<b>Atodiad C: Templed hysbysiad preifatrwydd</b>	<b>27</b>
<b>Atodiad D: Gweithio gyda Gyrfu Cymru</b>	<b>31</b>

## Cyd-destun

Mae'r canllawiau hyn yn cefnogi 'Adran 2: Nodi'n gynnar' yn y *Fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuenctid* – *Cynllun gweithredu* a gyhoeddwyd gan y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg ar 1 Hydref 2013.

<http://cymru.gov.uk/topics/educationandskills/skillsandtraining/youthengagement/?lang=cy>

Mae awdurdodau lleol (ALLau) yn gyfrifol am weithredu'r *Fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuenctid* cyn pen y cyfnod gweithredu o ddwy flynedd. Cydnabyddir bod rhai ALLau mewn gwahanol rannau o Gymru wedi gwneud mwy o gynnydd na'i gilydd wrth ddatblygu'r *Fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuenctid*.

Mae rhai ALLau eisoes wedi datblygu systemau nodi'n gynnar neu wrthi'n eu datblygu. Anelwyd y canllawiau hyn yn bennaf at yr ALLau hynny nad ydynt wedi datblygu system nodi'n gynnar eto.

Cydnabyddir na fydd y gwahanol systemau nodi'n gynnar yn cael eu safoni drwy Gymru. Fodd bynnag, mae'r canllawiau hyn yn nodi bod Llywodraeth Cymru'n disgwyl i ddangosyddion allweddol presenoldeb, ymddygiad a chyrrhaeddiad fod yn rhan allweddol o bob system nodi'n gynnar sy'n cael ei datblygu. Mae hyn yn adeiladu'n uniongyrchol ar y dystiolaeth a ddarparwyd yn *Identifying Young People at Risk of becoming 'Not in Employment, Education or Training'* papur ymchwil Llywodraeth Cymru 60/2013 sydd i'w weld yn

<http://cymru.gov.uk/statistics-and-research/identifying-young-people-risk-becoming-not-education-employment-training/?skip=1&lang=cy>

Sefydlwyd cyfnod gweithredu o ddwy flynedd ar gyfer y *Fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuenctid*. Cydnabyddir y bydd ein sail dystiolaeth ar ymarfer effeithiol yn datblygu yn ystod y cyfnod hwn. Disgwylir felly y bydd y canllawiau hyn yn cael eu diwygio a'u diweddarau ar sail profiad a gwybodaeth partneriaid yn ystod y cyfnod gweithredu. Wrth i arbenigedd yr ymarferwyr gynyddu disgwyliwn y bydd mwy o gysondeb drwy Gymru o ran y modd y gweithredir systemau nodi'n gynnar.

## Adran 1: Amcanion

Disgwylir i bob ALI sefydlu cynlluniau ar gyfer gweithredu system nodi'n gynnar erbyn mis Mawrth 2014 fel bod modd gweithredu'r system yn llawn ym mis Medi 2014.

Prif amcan y system nodi'n gynnar yw sicrhau bod ALLau mewn sefyllfa i allu nodi'n gywir ac yn systematig y bobl ifanc hynny sy'n wynebu'r perygl mwyaf o ymddieithrio oddi wrth addysg, cyflogaeth a hyfforddiant.

Yn achos pobl ifanc dan 16, dylai'r system nodi'n gynnar gael ei defnyddio gan y Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu (CYD) hefyd wrth iddo gynnal deialog gyda phartneriaid a cheisio cydgysylltu cefnogaeth ac ymyriadau er mwyn lleihau'r perygl parhaus o ymddieithrio. Ceir rhagor o wybodaeth am rôl y CYD yn y *Fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuencid*.

Bydd trefniadau systematig ar gyfer nodi'n gynnar yn helpu partneriaid wrth iddynt geisio sicrhau bod y gefnogaeth a'r ymyriadau priodol ar gael o amgylch pobl ifanc er mwyn adeiladu eu cadernid a'u gallu i ddatblygu'n llwyddiannus. Bwriedir i'r system nodi'n gynnar helpu i nodi pobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio cyn iddynt gyrraedd y cyfnod trosglwyddo ôl-16.

Bwriedir i system nodi'n gynnar helpu partneriaid i ddatblygu ymyriadau mwy cydgysylltiedig ac effeithiol. Mae rôl y CYD, fel y nodir yn y *Fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuencid*, yn darparu canolbwynt ar gyfer y trafodaethau hyn.

Mae'r *Fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuencid* yn nodi'r gofynion sylfaenol a ganlyn ar gyfer systemau nodi'n gynnar ALLau.

- Defnyddio set gyffredin o ddangosyddion craidd: presenoldeb, ymddygiad a chyrhaeddiad fel isafswm.
- Y system i gael ei llywio gan ddata ac i gynnwys Cyfnod Allweddol 4 i ddechrau – gyda chyfnod Allweddol 3 yn cael ei gynnwys cyn gynted ag y bo modd. Disgwylir y bydd hynny cyn diwedd 2016 ar yr hwyraf.
- Gwybodaeth ymarferwyr: dim ond carfan sydd mewn 'perygl' all gall ei nodi gan y system sy'n cael ei llywio gan ddata. Bydd gwybodaeth ymarferwyr yn caniatáu i'r data gael eu gwirio i wneud yn siŵr eu bod yn gwneud synnwyr. Bydd hefyd yn sicrhau bod modd cytuno ar ddarpariaeth briodol.
- Asesiad risg wedi'i flaenoriaethu: rhaid i'r defnydd a wneir o'r broses systematig hon sy'n cael ei llywio gan ddata ynghyd â gwybodaeth ymarferwyr ganiatáu i'r garfan sydd mewn perygl gael ei blaenoriaethu ymhellach, fel bod modd cyfeirio darpariaeth, yn enwedig rôl y gweithiwr allweddol

- Atebolrwydd: nodi rolau a chyfrifoldebau pawb sy'n ymwneud â'r system.

Disgwylir y bydd rôl y CYD yn cael ei chyflawni gan unigolyn wedi'i leoli yn yr ALL neu wedi'i recriwtio i'r ALL. Bydd hyn yn galluogi deiliad y swydd i reoli'r system nodi'n gynnar a rhoi arweiniad strategol i'r ddeialog rhwng partneriaid. Credwn ei bod yn hanfodol bod y CYD yn gallu defnyddio cynnyrch y system nodi'n gynnar i gydgysylltu trefniadau gweithio mewn partneriaeth er mwyn cefnogi pobl ifanc.

Mae'n bwysig bod y gwaith o weithredu elfen nodi'n gynnar y *Fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuenctid* yn cael ei gysoni â'r cynlluniau gweithredu ehangach ar gyfer y fframwaith sy'n cael eu cydgysylltu gan ALLau.

## **Adran 2: Datblygu system nodi'n gynnar**

Mae nifer o themâu ac arferion cyffredin wedi cael eu nodi o'r systemau nodi'n gynnar sydd wedi cael eu sefydlu mewn gwahanol rannau o Gymru. Gan adeiladu ar hyn, credwn y gellir rhannu'r broses o ddatblygu system nodi'n gynnar yn 3 cham allweddol.

### **Cam 1 – Cyfathrebu â rhanddeiliaid**

Er mwyn gweithredu'r *Fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuenctid*, yn enwedig yr elfennau nodi'n gynnar a thracio, mae angen llawer iawn o gefnogaeth gan rhanddeiliaid a gwaith cydgysylltiedig.

Mae'r ALLau hynny sydd wedi llwyddo i weithredu system nodi'n gynnar neu sydd wrthi'n datblygu un i gyd wedi sefydlu rhyw fath o grŵp llywio strategol neu grŵp llywio ar gyfer rhanddeiliaid sy'n dod â phartneriaid allweddol at ei gilydd.

Mae Awdurdodau Lleol sydd wedi sefydlu cyfarfodydd grŵp fel y brif sianel ar gyfer cyfathrebu â rhanddeiliaid wedi defnyddio'r fforwm hwn i ddatblygu trafodaethau ar bynciau fel cytundebau rhannu data, gwella'u dangosyddion/trothwyon, a rheoli llwyth achosion. Ceir rhagor o wybodaeth am aelodaeth a chylch gwaith posibl grŵp o'r fath yn Atodiad A (tudalen 22).

Mae rhai ALLau wedi cyfeirio at sefydlu grŵp strategol/grŵp rhanddeiliaid fel y brif ffordd o sefydlu'r ymgysylltiad ehangach â rhanddeiliaid sydd ei angen er mwyn sicrhau bod y rhai hynny sydd mewn Addysg Heblaw yn yr Ysgol yn cael eu cynnwys mewn system nodi'n gynnar.

### **Cam 2 – Proses sy'n cael ei llywio gan ddata**

Dylai nodi'n gynnar ddechrau ag asesiad yn cael ei lywio gan ddata. Dylai'r asesiad hwn fod yn seiliedig ar y dangosyddion y cytunwyd arnynt gan ALLau ac yn cael ei gefnogi gan bartneriaid. Drwy sefydlu system sy'n cael ei llywio gan ddata gellir creu dull systematig i nodi'r holl bobl ifanc hynny sy'n dod o fewn y paramedrau a ddiffiniwyd gan ALI. Gellir ymarferwyr o nifer o wahanol sefydliadau asesu'r data hyn wedyn er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn gwneud synnwyr, cyflwyno gwybodaeth ychwanegol nad yw i'w gweld mewn model sy'n cael ei lywio gan ddata, a chefnogi trafodaethau ynglŷn â blaenoriaethu a'r ddarpariaeth fwyaf priodol.

Credwn y gellir adeiladu systemau nodi'n gynnar cadarn drwy ddefnyddio data sydd ar gael yn barod i bartneriaid. Disgwylir y bydd ALLau yn defnyddio data'r Cyfrifiad

Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) ar gyrhaeddiad, presenoldeb ac ymddygiad fel man cychwyn er mwyn nodi'r rhai sy'n wynebu'r perygl mwyaf o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

Gall Gyrfa Cymru gynnig set ddata i bob ALI sy'n nodi'r bobl ifanc sy'n 16 ac 17 oed (ar 31 Awst) sydd mewn perygl o beidio â throsglwyddo'n llwyddiannus.

Mae'r set ddata hon yn seiliedig ar system Gyrfa Cymru ei hun ar gyfer targedu gwasanaethau gwybodaeth a chyfarwyddyd gyrfaoel. Efallai y byddai partneriaid lleol yn hoffi datblygu eu systemau eu hunain, ond credwn y gallai ALLau ddefnyddio data Gyrfa Cymru fel man cychwyn.

Disgwyliwn mai'r CYD fydd y prif bwynt cyswllt ar gyfer y system nodi'n gynnar, ac y bydd yn defnyddio ac yn rheoli'r sianeli cyfathrebu cytunedig i sicrhau bod trefniadau rhannu data priodol ar gael, lle bo'u hangen, i helpu ALLau i sefydlu a chynnal system nodi'n gynnar.

Er mwyn helpu ALLau i sefydlu cytundebau rhannu data mae templed ar gyfer protocolau rhannu data i'w weld yn Atodiad B (tudalen 25).

O ran casglu data gan ysgolion, dylai ALLau ymglyfarwyddo â'r wybodaeth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru am rolau a chyfrifoldebau. Mae'r wybodaeth hon i'w gweld yn

<http://cymru.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/schooldata/ims/datamanagementims/?skip=1&lang=cy>

Fel y nodir yn y deunydd ategol (y cyfeirir ato uchod), mae'n ofynnol i bob ysgol roi hysbysiad preifatrwydd i bob dysgwr yn yr ysgol i gadarnhau pa ddata sy'n cael eu casglu, sut y byddant yn cael eu defnyddio a gyda phwy y bydd y data'n cael eu rhannu. Mae enghraifft o hysbysiad preifatrwydd i'w weld drwy'r ddolen gyswllt a hefyd yn Atodiad C (tudalen 27). Gellir addasu'r templed hysbysiad preifatrwydd i fodloni amodau lleol ond rhaid cydnabod bod y nodiadau sydd yn y ddogfen wedi'u bwriadu er gwybodaeth yn unig ac ni ddylid cymryd eu bod yn ymwneud â phob agwedd ar Ddeddf Diogelu Data 1998. Ceir rhagor o fanylion cysylltu drwy'r ddolen i'r we os oes gan ALLau ragor o gwestiynau ynglŷn â Deddf Diogelu Data 1998.

## **Dangosyddion a throthwyon**

Mae ymchwil yn awgrymu mai presenoldeb, ymddygiad a chyrhaeddiad yw prif ddangosyddion ymddieithrio. O ganlyniad, disgwyliwn y bydd y tri dangosydd hyn yn ganolog i'r system nodi'n gynnar a ddatblygir gan bob ALI.

Un elfen bwysig yw'r ffaith ein bod yn credu mai nad yw gadael rhagfynegiad tan y blynyddoedd diweddarach yn gwneud llawer o wahaniaeth i gywirdeb rhagfynegiad. O ganlyniad, gellir cyfiawnhau colli rhywfaint o gywirdeb rhagfynegiad er mwyn nodi'r



rhai hynny sydd mewn perygl o ymddieithrio a pheidio â bod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant pan maent yn iau.


Yng Nghymru, dengys ymchwil gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (2009) fod pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (pobl ifanc NEET) yn debygol o fod â hanes o fod yn absennol o'r ysgol, â chyfradd driwantiaeth gyson o 15.4 y cant ar gyfer y grŵp NEET o'i chymharu â 3.3 y cant ar gyfer y garfan gyfan. Mae newidynnau sy'n gysylltiedig ag ymddygiad, megis cyrhaeddiad a phresenoldeb, yn bwysig oherwydd bod modd eu newid, felly drwy eu defnyddio i nodi'r rhai sydd mewn perygl o fod yn NEET mae cyfle i rieni ac athrawon ymyrryd ac atal sefyllfa rhag codi.

Gall defnyddio newidynnau demograffig i nodi'r rhai sydd mewn perygl o fod yn NEET arwain at y syniad nad oes dim y gellir ei wneud i atal hynny, gan nad oes modd newid y rhan fwyaf o'r newidynnau demograffig. Yn ychwanegol at hyn, er bod modd defnyddio nodweddion demograffig i nodi unigolion sydd mewn perygl o fod yn NEET drwy edrych i ba raddau y mae rhai grwpiau demograffig yn cael eu gorgynrychioli yn y grŵp NEET, gall hyn arwain at or-dargedu. Gallai hyn olygu bod unigolion nad ydynt yn mynd ymlaen i fod yn NEET yn cael eu nodi, er eu bod mewn grŵp sydd wedi'i nodi fel grŵp sydd â risg (h.y. cymhwyster i gael prydau ysgol am ddim). Gall hyn gael nifer o ganlyniadau: bod ysgolion yn meddwl bod y broblem yn rhy fawr i fynd i'r afael â hi, bod ysgolion yn teimlo nad oes dim y gallant ei wneud gan na allant newid rhai nodweddion demograffig, neu bod rhai dysgwyr yn cael eu nodi ar gam ac yn cael eu 'trin' yn ddiangen.

I gyd-fynd â chyhoeddi'r *Fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuenctid*, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru *Identifying Young People at Risk of becoming 'Not in Employment, Education or Training'* (Llywodraeth Cymru, 2013). Mae tystiolaeth a ddarperir yn yr adroddiad hwn (ac sydd i'w gweld isod) yn nodi sut y mae gan rai newidynnau gysylltiad cryfach na'i gilydd â statws NEET yn y dyfodol (gweler Ffigur 1 ar dudalen 8).

Byddai Llywodraeth Cymru'n disgwyl i ALLau adlewyrchu'r dystiolaeth a ddarperir ynddo wrth ddatblygu eu systemau eu hunain.

**Ffigur 1: Cryfder y cysylltiad rhwng bod yn NEET a newidynnau wedi'u trefnu yn ôl cryfder y cysylltiad – Phi /Crammer V** Demograffig Presenoldeb Cyrhaeddiad



Wedi'i godi o dudalen 29 yn *Identifying Young People at Risk of becoming 'Not in Education, Employment or Training'*

<http://cymru.gov.uk/statistics-and-research/identifying-young-people-risk-becoming-not-education-employment-training/?skip=1&lang=cy>

### Astudiaeth achos: Proses yn cael ei lywio gan ddata

Yn Abertawe mae'r 'Proffil Asesiad Disgyblion Agored i Niwed' yn defnyddio system sy'n pwysoli nodweddion dysgwyr yr adroddir amdanynt yn nata CYBLD. Mae model Abertawe'n defnyddio data:

- presenoldeb ac absenoldeb heb ganiatâd
- gwaharddiadau am gyfnod penodedig (nifer a diwrnodau a gollwyd yn y 12 mis diwethaf)

- AAA/ADY, h.y. â Datganiad, Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy, Gweithredu gan yr Ysgol
- darllen: sgorau oed safonol Blynyddoedd 2 a 7
- prydau ysgol am ddim
- plant sy'n derbyn gofal
- Saesneg fel iaith ychwanegol
- newid ysgol yn y ddwy flynedd ddiwethaf.

### **Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD)**

Mae pob ysgol yn casglu ac yn cadw llawer iawn o ddata am eu dysgwyr. Un o'r prif ffyrdd o wneud hyn yw drwy'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) sy'n cael ei gynnal ym mis Ionawr bob blwyddyn ac sy'n gofyn i bob ysgol a gynhelir ddarparu data ar lefel dysgwyr ac ysgolion i Lywodraeth Cymru.

Mae dadansoddiad o ddata'r CYBLD, ynghyd â data presenoldeb dysgwyr a chanlyniadau cyfnodau allweddol ac arholiadau, yn rhoi ystod eang o wybodaeth i ysgolion, awdurdodau lleol ac asiantaethau canolog. Mae hyn yn cefnogi'r ymdrech i godi safonau, targedu cyllid yn gywirach, a thracio a monitro cynnydd dysgwyr a'u hymgysylltiad ag addysg.

### **Presenoldeb**

Mae person ifanc sydd â chofnod presenoldeb gwael yn fwy tebygol o ymddieithrio a mynd yn NEET. Mae methiant i fod yn bresennol yn arwain at golli dilyniant mewn dysgu, yn lleihau'r tebygolrwydd o gyrhaeddiad, ac yn gwneud cefnogaeth fugeiliol yn anos i'w darparu.

Yn ogystal â'r CYBLD mae'n ofynnol i bob ysgol gofnodi data presenoldeb dyddiol ar gyfer pob dysgwr sydd ar y gofrestr. Mae'r data hyn yn cael eu cofnodi a'u hadrodd fel rhan o System Gwybodaeth Rheoli'r ysgol.

Cyn cael gwybodaeth gan ymarferwyr mae angen sefydlu trothwy neu drothwyon ar gyfer presenoldeb. Gellir rhoi pwyntiau i ddysgwyr mewn gwahanol grwpiau trothwy fel rhan o fodel asesu cyffredinol.

Bydd angen i bob ALI gytuno sut y bydd yn rheoli ac yn gweithio gyda throthwyon, ond dengys tystiolaeth (fel y byddech yn disgwyl) bod y perygl o fod yn y grŵp NEET yn cynyddu'n sylweddol wrth i bresenoldeb ddisgyn o 90 y cant i 50 y cant. Dengys archwiliad o ddata presenoldeb bod y rhai hynny sydd â chyfradd bresenoldeb o 50–59 y cant fwy na 15 gwaith yn fwy tebygol o fod yn NEET na'r rhai sydd â phresenoldeb o fwy na 90 y cant. Mae'r rhai sydd â phresenoldeb rhwng 70–79 y cant tua phedair gwaith yn fwy tebygol o fod mewn perygl o fod yn NEET. Oherwydd

hyn byddem yn cynghori ALLau sy'n datblygu dull sgorio cyfansawdd i ystyried cysylltu sgôr uchel â'r rhai sydd â chyfraddau presenoldeb is.

Os dim ond un trothwy sy'n cael ei nodi byddem yn disgwyl i ALLau fod yn tynnu sylw at unrhyw unigolyn sydd â phresenoldeb is nag 80 y cant, gan fod y tebygolrwydd o fod yn y grŵp NEET yn cynyddu'n sylweddol o dan y pwynt hwn.

Mae Ffigur 2 isod yn nodi chwech grŵp yn seiliedig ar gyfraddau presenoldeb yn erbyn y risg gymharol y bydd pobl ifanc yn y grwpiau hyn yn dod yn NEET. Mae'r dystiolaeth hon yn dangos effaith bosibl dewis gwahanol drothwyon a gall ddarparu sail ar gyfer trafodaeth ymhlith partneriaid ynghlŷn â'r ffordd orau o nodi trothwyon a/neu sgorio â system nodi'n gynnar.

**Ffigur 2: Chwech grŵp sy'n seiliedig ar gyfraddau presenoldeb yn erbyn y risg gymharol y bydd pobl ifanc yn y grwpiau hyn yn dod yn NEET**

Grŵp presenoldeb	Cyfradd bresenoldeb (x)	Risg gymharol o fod yn y grŵp NEET
0	90 < x <= 100 %	
1	80 < x <= 90 %	Ar gyfer Grŵp 1 o'i gymharu â Grŵp 0 = 1.756
2	70 < x <= 80 %	Ar gyfer Grŵp 2 o'i gymharu â Grŵp 0 = 4.380
3	60 < x <= 70 %	Ar gyfer Grŵp 3 o'i gymharu â Grŵp 0 = 7.570
4	50 < x <= 60 %	Ar gyfer Grŵp 4 o'i gymharu â Grŵp 0 = 11.107
5	x <= 50 %	Ar gyfer Grŵp 5 o'i gymharu â Grŵp 0 = 15.471

*Identifying Young People at Risk of becoming 'Not in Education, Employment or Training'*  
<http://cymru.gov.uk/statistics-and-research/identifying-young-people-risk-becoming-not-education-employment-training/?skip=1&lang=cy>

O edrych ar gyfraddau absenoldeb heb ei ganiatáu gallwn weld o Ffigur 3 bod y risg gymharol o fod yn y grŵp NEET ar gyfer y rhai sydd yng Ngrŵp 3 bron 11 gwaith yn fwy nag ar gyfer y rhai yng Ngrŵp 0.

**Ffigur 3: Pedwar grŵp sy'n seiliedig ar gyfraddau presenoldeb yn erbyn y risg gymharol y bydd pobl ifanc yn y grwpiau hyn yn dod yn NEET**

Grŵp absenoldeb heb ganiatâd	Cyfradd absenoldeb heb ganiatâd (y)	Risg gymharol o fod yn y grŵp NEET
0	y <= 10 %	
1	10 < y <= 20 %	Ar gyfer Grŵp 1 o'i gymharu â Grŵp 0 = 4.723
2	20 < y <= 30 %	Ar gyfer Grŵp 2 o'i gymharu â Grŵp 0 = 7.909
3	y > 30 %	Ar gyfer Grŵp 3 o'i gymharu â Grŵp 0 = 10.944

*Identifying Young People at Risk of becoming 'Not in Education, Employment or Training'*  
<http://cymru.gov.uk/statistics-and-research/identifying-young-people-risk-becoming-not-education-employment-training/?skip=1&lang=cy>

Wrth benderfynu sut i ymdrin â phresenoldeb mewn system nodi'n gynnar, bydd angen i ALLau ystyried sut y byddant yn ymdrin â phobl ifanc sydd mewn addysg heblaw yn yr ysgol fel y rhai hynny nad ydynt yn y system ysgolion prif ffrwd (er enghraifft, unedau cyfeirio disgyblion).

Bydd angen i ALLau hefyd benderfynu a ydynt am ddefnyddio absenoldeb heb ganiatâd, absenoldeb â chaniatâd, neu ddata am y naill a'r llall mewn systemau nodi'n gynnar.

## **Ymddygiad**

Mae angen nodi data procsi ar gyfer ymddygiad. Defnyddir data gwaharddiadau i'r diben hwn fel arfer. Er y gallai ALLau ystyried defnyddio trothwyon ar gyfer gwahardd, megis nifer y cyfnodau gwahardd, eu hyd a'r rheswm dros y gwaharddiad, efallai y byddai'n briodol nodi pob person ifanc sy'n cael gwaharddiad yn y system nodi'n gynnar mewn ffordd gyfartal. Gallai rhagor o ymchwil a thystiolaeth o arferion systemau nodi'n gynnar dros gyfnod helpu i wella'r canllawiau yn y maes hwn yn y dyfodol.

Gellir cael procsi arall drwy nodi'r bobl ifanc hynny sydd ag anghenion addysgol arbennig (AAA) ymddygiadol.

Fel â phresenoldeb, byddem yn disgwyl i ALLau ddefnyddio gwybodaeth ymarferwyr wedi'i darparu gan nifer o wahanol bartneriaid er mwyn gwella canlyniadau unrhyw broses sy'n cael ei llywio gan ddata.

Wrth benderfynu ynglŷn â'r mesurau ac unrhyw drothwyon a bennir ar gyfer ymddygiad, gofynnir i ALLau ystyried sut y byddant yn ymdrin â data a thystiolaeth ar gyfer pobl ifanc sydd mewn addysg heblaw yn yr ysgol.

## **Cyrhaeddiad**

Mae cysylltiad cryf rhwng cyrhaeddiad isel a'r perygl o fod yn NEET. Mae gan ychydig yn fwy na hanner y rhai sy'n NEET gyrhaeddiad sydd yn y ddegradd isaf (ar sail y dangosydd pynciau craidd yng Nghyfnod Allweddol 4). Mae'r rhai sy'n cyflawni yn y bumed ddegradd (ar sail data yng Nghyfnod Allweddol 4) dros naw gwaith yn fwy tebygol o fod yn NEET o'u cymharu â'r rhai sydd yn y 9<sup>fed</sup> neu'r 10<sup>fed</sup> ddegradd. Mae'r ffigur hwn yn codi i bron i 120 gwaith yn fwy tebygol ar gyfer y rhai sydd yn y 10<sup>fed</sup> ddegradd (Ffigur 4 ar dudalen 12).

Ar sail data'r blynyddoedd diwethaf gwyddom fod 39.2 y cant o'r grŵp NEET yng Nghymru heb gyrraedd Lefel 1 yng Nghyfnod Allweddol 4, o'i gymharu â 4.7 y cant o'r grŵp nad oedd yn NEET. Gwelwyd canlyniadau tebyg ar gyfer cyrraedd Lefel 2 (80.5 y cant o'r grŵp NEET heb gyrraedd Lefel 2 o'i gymharu â 27.9 y cant o'r grŵp

nad oedd yn NEET). Mae'r risg gymharol o fod yn y grŵp NEET i rywun nad yw'n cyrraedd Lefel 2 bron 10 gwaith cymaint ag ar gyfer rhywun sydd yn cyrraedd Lefel 2.

**Ffigur 4: Data Cyfnod Allweddol 4 – Sgôr pwyntiau ehangach cyfartalog**

Degradd pwyntiau CA4	Sgôr pwyntiau CA4 (z)	Risg gymharol o fod yn y grŵp NEET
1	$z \leq 198.8$	Ar gyfer y ddegradd 1af o'i chymharu â'r 9 <sup>ted</sup> a'r 10 <sup>ted*</sup> = 117.725
2	$198.8 < z \leq 302.0$	Ar gyfer yr 2il ddegradd o'i chymharu â'r 9 <sup>ted</sup> a'r 10 <sup>ted*</sup> = 43.311
3	$302.0 < z \leq 366.0$	Ar gyfer y 3edd ddegradd o'i chymharu â'r 9 <sup>ted</sup> a'r 10 <sup>ted</sup> = 21.165
4	$366.0 < z \leq 409.0$	Ar gyfer y 4edd ddegradd o'i chymharu â'r 9 <sup>ted</sup> a'r 10 <sup>ted</sup> = 12.132
5	$409.0 < z \leq 447.0$	Ar gyfer y 5ed ddegradd o'i chymharu â'r 9 <sup>ted</sup> a'r 10 <sup>ted</sup> = 9.329
6	$447.0 < z \leq 484.8$	Ar gyfer y 6ed ddegradd o'i chymharu â'r 9 <sup>ted</sup> a'r 10 <sup>ted</sup> = 6.786
7	$484.8 < z \leq 526.0$	Ar gyfer y 7fed ddegradd o'i chymharu â'r 9 <sup>ted</sup> a'r 10 <sup>ted</sup> = 3.578
8	$526.0 < z \leq 575.8$	Ar gyfer yr 8fed ddegradd o'i chymharu â'r 9 <sup>ted</sup> a'r 10 <sup>ted</sup> = 4.068
9	$578.8 < z \leq 649.5$	
10	$z > 645.5$	

*Identifying Young People at Risk of becoming 'Not in Education, Employment or Training'*  
<http://cymru.gov.uk/statistics-and-research/identifying-young-people-risk-becoming-not-education-employment-training/?skip=1&lang=cy>

Ni fydd y set ddata Cyfnod Allweddol 4 ar gael ar gyfer y bobl ifanc berthnasol hynny yn y system nodi'n gynnar cyn-16. Dengys tystiolaeth ei bod yn werth edrych ar ganlyniadau Cyfnodau Allweddol 3 a 2. Mae'r risg o fod yn y grŵp NEET (ôl-16) i rywun nad yw'n cyflawni'r dangosyddion pynciau craidd (CSI) yng Nghyfnod Allweddol 3 bron pump gwaith cymaint ag ar gyfer rhywun sydd yn cyflawni'r CSI ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3.

Mae angen bod yn ofalus wrth edrych ar y defnydd o ddata Cyfnod Allweddol 3. Er enghraifft, ychydig yn fwy nag un o bob tri o'r grŵp NEET sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyledig neu uwch. Dengys Ffigur 5 (ar dudalen 13) bod y risg gymharol o fod yn y grŵp NEET i'r rhai sy'n cyrraedd Lefelau 1 a 2 mewn Cymraeg/Saesneg yng Nghyfnod Allweddol 3 13 gwaith yn fwy nag ar gyfer y rhai sy'n cyrraedd Lefelau 6-8. Mae'r ffigur hwn yn gostwng i ddim ond tair gwaith cymaint ar gyfer y rhai sy'n cyrraedd Lefel 5.

**Ffigur 5: Y risg gymharol o fod yn y grŵp NEET i'r rhai sy'n cyrraedd Lefelau 6 a 8 mewn Cymraeg/Saesneg yng Nghyfnod Allweddol 3**

Cyfnod Allweddol 3 Cymraeg/Saesneg	
Risg gymharol o fod yn y grŵp NEET	
Ar gyfer Lefelau 1–2 o'u cymharu â Lefelau 6–8	13.261
Ar gyfer Lefel 3 o'i chymharu â Lefelau 6–8	12.368
Ar gyfer Lefel 4 o'i chymharu â Lefelau 6–8	8.660
Ar gyfer Lefel 5 o'i chymharu â Lefelau 6–8	3.178

*Identifying Young People at Risk of becoming 'Not in Education, Employment or Training'*  
<http://cymru.gov.uk/statistics-and-research/identifying-young-people-risk-becoming-not-education-employment-training/?skip=1&lang=cy>

Mae'r Ffigur 6 yn adrodd stori debyg iawn ynglŷn â chanlyniadau mewn mathemateg yng Nghyfnod Allweddol 3 gyda'r rhai sy'n cyrraedd Lefelau 1–2 bron 12 gwaith yn fwy tebygol o fod yn y grŵp NEET o'u cymharu â'r rhai sy'n cyrraedd Lefelau 6–8.

**Ffigur 6: Y risg gymharol o fod yn y grŵp NEET i'r rhai sy'n cyrraedd Lefelau 6 a 8 mewn Cymraeg/Saesneg yng Nghyfnod Allweddol 3**

Cyfnod Allweddol 3 mathemateg	
Risg gymharol o fod yn y grŵp NEET	
Ar gyfer Lefelau 1–2 o'u cymharu â Lefelau 6–8	11.972
Ar gyfer Lefel 3 o'i chymharu â Lefelau 6–8	10.437
Ar gyfer Lefel 4 o'i chymharu â Lefelau 6–8	6.953
Ar gyfer Lefel 5 o'i chymharu â Lefelau 6–8	3.022

*Identifying Young People at Risk of becoming 'Not in Education, Employment or Training'*  
<http://cymru.gov.uk/statistics-and-research/identifying-young-people-risk-becoming-not-education-employment-training/?skip=1&lang=cy>

Lle nad yw ALLau yn dewis defnyddio data CSI, gellir ystyried data eraill sy'n ymwneud â chyrhaeddiad. Fodd bynnag, dylai ALLau ystyried cryfder y dystiolaeth sy'n cefnogi'r defnydd o ddangosyddion eraill.

Wrth ddatblygu system nodi'n gynnar efallai y byddai ALLau yn hoffi ystyried sut y maent yn adlewyrchu newidiadau annisgwyl mewn cyrhaeddiad (gwahaniaethau rhwng tueddiadau ar draws cyfnodau allweddol) yn eu systemau nodi'n gynnar.

Ceir rhagor o wybodaeth am gywirdeb dangosyddion sy'n seiliedig ar ysgolion a nodweddion demograffig wrth ragweld disgyblion sydd mewn perygl o fod yn NEET mewn gwahanol gyfnodau allweddol yn *Identifying Young People at Risk of Becoming 'Not in Employment, Education or Training'* (gweler isod):  
<http://cymru.gov.uk/statistics-and-research/identifying-young-people-risk-becoming-not-education-employment-training/?lang=cy>

**Ffigur 7: Cywirdeb dangosyddion sy'n seiliedig ar ysgolion a nodweddion demograffig wrth ragweld dysgwyr sydd mewn perygl o fod yn NEET ar draws cyfnodau allweddol**

Cod y model	Newidynnau a ddefnyddiwyd	% y bobl ifanc NEET a nodwyd	% y bobl ifanc heb fod yn NEET a nodwyd
A1	Cyrhaeddiad a phresenoldeb Cyfnod Allweddol 2	63.0	78.0
A2	Cyrhaeddiad, presenoldeb a nodweddion demograffig Cyfnod Allweddol 2	68.2	78.7
B1	Cyrhaeddiad a phresenoldeb Cyfnod Allweddol 3	72.9	75.1
B2	Cyrhaeddiad, presenoldeb a nodweddion demograffig Cyfnod Allweddol 3	72.3	76.7
C1	Cyrhaeddiad a phresenoldeb Cyfnodau Allweddol 2 a 3	73.2	74.9
C2	Cyrhaeddiad, presenoldeb a nodweddion demograffig Cyfnodau Allweddol 2 a 3	73.5	75.9
D1	Cyrhaeddiad a phresenoldeb Cyfnod Allweddol 4	78.2	78.8
D2	Cyrhaeddiad, presenoldeb a nodweddion demograffig Cyfnod Allweddol 4	79.0	79.1
E1	Cyrhaeddiad a phresenoldeb Cyfnodau Allweddol 2, 3 a 4	79.9	78.5
E2	Cyrhaeddiad, presenoldeb a nodweddion demograffig Cyfnodau Allweddol 2, 3 a 4	79.3	79.0

*Identifying Young People at Risk of becoming 'Not in Education, Employment or Training'*  
<http://cymru.gov.uk/statistics-and-research/identifying-young-people-risk-becoming-not-education-employment-training/?skip=1&lang=cy>

## Dangosyddion

Gall asesiad yn cael ei lywio gan ddata o statws risg person ifanc fod yn fan cychwyn ar gyfer gwybodaeth ymarferwr. Pan fo angen nodi pa bobl ifanc 'mewn perygl' fyddai'n elwa fwyaf o ymyriadau penodol (gan gynnwys dyrannu gweithiwr arweiniol), mae gwybodaeth gan ymarferwr yn ein galluogi i sicrhau bod dealltwriaeth ehangach o bobl ifanc a'u hamgylchiadau yn rhan o'r broses o gynllunio cefnogaeth.

## Cam 3 – Gwybodaeth ymarferwyr

Er bod system nodi'n gynnar yn dechrau â model sy'n cael ei lywio gan ddata, mae'n hanfodol bod gwybodaeth ymarferwyr yn chwarae rhan lawn a ffurfiol yn y system.

Bydd gwybodaeth ymarferwyr yn:

- darparu gwybodaeth ac asesiad o'r rhesymau pam y mae unigolyn wedi cael ei nodi
- profi a helpu i wella'r broses o flaenoriaethu angen



- cefnogi deialog ac ystyriaeth o'r ddarpariaeth sydd ei hangen, os oes angen darpariaeth
- helpu i gadarnhau pa sefydliadau yw'r rhai mwyaf priodol i ddarparu cefnogaeth wedi'i thargedu (neu pa sefydliad fydd yn darparu cefnogaeth 'gweithiwr arweiniol')
- ychwanegu at yr wybodaeth sydd ar gael am yr unigolyn a nodwyd er mwyn creu darlun cyflawn o'r amgylchiadau.

Mae gwybodaeth ymarferwyr yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y garfan gychwynnol a nodwyd gan y broses sy'n cael ei llywio gan ddata yn gywir ac yn briodol, o gofio mai data blynyddol yw data CYBLD. Dylai gwybodaeth ymarferwyr sicrhau hefyd bod gwybodaeth gyfredol am bobl ifanc sydd angen cefnogaeth yn cael ei chyflwyno i'r system nodi'n gynnar.

Rydym yn disgwyl i drefniadau ar gyfer gwybodaeth ymarferwyr fod yn rhan annatod o gynlluniau ALLau ar gyfer gweithredu systemau nodi'n gynnar. Gallai ALLau ystyried gofyn am wybodaeth gan ymarferwyr yn y meysydd a ganlyn, ond gellir cynnwys meysydd eraill: ysgolion, darparwyr hyfforddiant lleol, Gyrfa Cymru, adrannau perthynol mewn ALI megis gwasanaethau plant a gwasanaethau cymunedol, Cymunedau yn Gyntaf, Canolfan Byd Gwaith, Tîm Troseddau Ieuencid, y Gwasanaeth Prawf ac ymarferwyr iechyd.


### Adran 3: Heriau a nodwyd a dewisiadau i'w harchwilio

Mae nifer o heriau a phroblemau'n gysylltiedig â sefydlu system nodi'n gynnar. Bydd cydnabod yr heriau hyn o'r dechrau'n helpu ALLau i ddatblygu eu cynlluniau. Mae'r adran canlynol yn nodi problemau ac ymatebion posibl ar sail profiad rhai o'r ALLau sydd eisoes wedi dechrau gweithredu systemau nodi'n gynnar.

Her	Dewisiadau
<p>Cael mynediad at ddata dysgwyr gan ysgolion i'w bwydo i mewn i'r system nodi'n gynnar.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Cyfathrebu â phenaethiaid ysgolion i gadarnhau pa ddata sydd eu hangen, pam a sut y byddwch yn eu defnyddio. Mae'r cyngor a roddwyd yn Adran 2 o'r canllawiau hyn, h.y. rolau a chyfrifoldebau a gadarnhawyd yn Neddff Diogelu Data 1998, hefyd wedi helpu rhai ALLau i oresgyn pryderon ynglŷn â diogelu data.</li> <li>➤ Mae rhai o'r ALLau hynny sydd eisoes yn gweithredu system nodi'n gynnar wedi dweud bod nifer o sianeli cyfathrebu wedi cael eu defnyddio i ymgysylltu â rhanddeiliaid mewn ambell achos er mwyn iddynt allu symud ymlaen (h.y. ceisiadau ysgrifenedig, cyfarfodydd un-i-un a hwyluso fforymau rhanddeiliaid).</li> </ul>
<p>Sicrhau bod dangosyddion ychwanegol (yn ogystal â'r dangosyddion craidd) a'u defnydd (trothwyon a phwysoliad) yn cael eu pennu'n briodol er mwyn nodi'r bobl ifanc sydd mewn perygl.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Mae'r sianel gyfathrebu y cytunwyd arni (fel y nodwyd yn Adran 1) wedi gweithio'n dda mewn rhai ardaloedd fel prawf o lwyddiant tebygol cynlluniau. Mae hyn yn golygu bod modd gwella syniadau cychwynnol a'u profi ar sail arbenigedd y grwpiau. Mae rhai'n credu bod cyfnod o brofi a gwella cynlluniau'n allweddol er mwyn cael tystiolaeth o hyder yn y system.</li> <li>➤ Mae'r ALLau hynny sydd â systemau nodi'n gynnar mwy datblygedig wedi dweud eu bod wedi neilltuo cyfnod i wella cynlluniau. Efallai y byddai'n werth treialu fersiwn cychwynnol eich system er mwyn gallu gwneud gwerthusiad manwl o sampl o'r canlyniadau. Mae sianel gyfathrebu gytunedig â rhanddeiliaid wedi bod yn</li> </ul>

	<p>offeryn sy'n cael ei ddefnyddio'n rheolaidd i hwyluso'r cyfnod 'profi' hwn. Yn ystod y cyfnod profi hwn, y prif gwestiwn y bydd ALLau eisiau ei ateb yw: A yw'r sampl a nodwyd drwy'r system systematig/yn cael ei llywio gan ddata yn gydnaws â disgwyliadau'r ymarferwyr?</p>
<p>Cael rhanddeiliaid i gefnogi'r system nodi'n gynnar.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Defnyddio rôl y CYD i gydgysylltu cyfathrebu cynnar â rhanddeiliaid allweddol. Nodwyd bod sefydlu cysylltiadau cryf â rhanddeiliaid allweddol, pennu amcanion y system gan gynnwys sut y bydd y rhanddeiliaid yn cyfrannu tuag at y system yn allweddol.</li> <li>➤ Nodwyd bod cadarnhau beth y bydd y rhanddeiliaid eu hunain yn ei gael o'r system, h.y. gwybodaeth fwy dibynadwy am bobl ifanc i'w helpu yn eu rolau, o gymorth i drafodaethau.</li> </ul>

## Adran 4: Amlinelliad o'r prif gamau er mwyn datblygu system nodi'n gynnar



## **Adran 5: Rhestr gyfeirio ar gyfer system nodi'n gynnar**

### **1. Penodi Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu (CYD)**

Mae'r rôl hon yn hanfodol. Disgwylir y bydd y CYD yn gyfrifol am weithredu'r *Fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuencid* – y system nodi'n gynnar fydd yr elfen gyntaf fydd ei heisiau.

### **2. Sefydlu sianel ar gyfer ymgysylltu a chyfathrebu a rhanddeiliaid**

Disgwylir y bydd angen creu rhyw fath o weithgor strategol/gweithgor rhanddeiliaid, yn cynnwys yr holl rhanddeiliaid allweddol, i gyfrannu tuag at waith yr ALLau o ddatblygu a gweithredu'r system nodi'n gynnar. Disgwylir y byddai'r canlynol yn cael eu cynrychioli:

- adrannau sy'n gysylltiedig â'r awdurdod lleol – y CYD a'r gweithiwr allweddol yn cael eu cynrychioli
- ysgolion
- gwasanaethau plant
- gwasanaethau cymunedol
- Cymunedau yn Gyntaf
- Gyrfa Cymru
- Canolfan Byd Gwaith
- Gwasanaeth Troseddau Ieuencid
- Gwasanaeth Prawf
- gwasanaethau iechyd
- prifysgolion lleol, darparwyr hyfforddiant (ffederasiwn hyfforddiant cenedlaethol Cymru) a darparwyr y sector gwirfoddol.

### **3. Sefydlu protocolau rhannu data gyda rhanddeiliaid allweddol**

Dylai'r system nodi'n gynnar gael ei llywio gan ddata. Bydd yn hanfodol bod y cytundebau priodol wedi cael eu gwneud er mwyn gallu rhannu data a chreu system gadarn a chynhwysfawr ar gyfer nodi'n gynnar.

Un o'r camau cyntaf y bydd yn rhaid i'r ALLau eu cymryd fydd ymateb i'r data a gynigir gan Gyrfa Cymru a chadarnhau pwynt cyswllt (CYD).

### **4. Cytuno ar ddangosyddion risg a throthwyon**

Disgwylir y bydd modd i rwydwaith rhanddeiliaid (grŵp llywio) yr ALLau fireinio'r dangosyddion (y dangosyddion craidd sydd wedi cael eu cadarnhau a dangosyddion ychwanegol sy'n gydnaws ag anghenion mewn maes penodol) a'r trothwyon hyn.

Disgwylir hefyd y bydd ar ALLau eisiau cynllunio er mwyn profi a threialu'r system nodi'n gynnar a sicrhau bod y system yn gallu blaenoriaethu a chyfeirio darpariaeth yn gywir.

## **5. Cytuno sut y bydd gwybodaeth ymarferwyr yn cael ei phrif ffrydio'n systematig yn y system nodi'n gynnar sy'n cael ei llywio gan ddata**

Bydd ar y system nodi'n gynnar sy'n cael ei llywio gan ddata angen proses gwybodaeth ymarferwyr/gwirio data i wneud yn siŵr eu bod yn gwneud synnwyr. Yn y pen draw bydd angen i'r broses asesu pob rheswm y gwyddys amdano (dangosyddion meddalach) sydd y tu ôl i'r data sy'n nodi bod person ifanc 'mewn perygl'. Bydd angen i'r asesiad hwn fwydo i mewn i'r adolygiad achos cyffredinol a fydd yn nodi'r lefel a'r math priodol o ddarpariaeth.

## **6. Adolygu**

Bydd yr ALLau yn awyddus i gael proses werthuso ac adolygu sefydledig y cytunwyd arni. Dylai gadarnhau disgwyliadau ALLau, beth yw llwyddiant yn eu barn nhw a sut y bydd y system hon yn cael ei chynnal pan fydd yn weithredol (o fis Medi 2014 ymlaen – y terfyn amser ar gyfer gweithredu). Dylai'r cynllun adolygu a'r cynlluniau cychwynnol ar gyfer system nodi'n gynnar fod ar gael erbyn mis Mawrth 2014.

## Cyfeiriadau

*Identifying Young People at Risk of becoming 'Not in Education, Employment or Training' 60/2013.*

<http://cymru.gov.uk/statistics-and-research/identifying-young-people-risk-becoming-not-education-employment-training/?lang=cy>

Llywodraeth Cynulliad Cymru. 2009. *Lleihau cyfran y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yng Nghymru: darparu sgiliau sy'n gweithio i Gymru.*

<http://cymru.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/yeeap/?lang=cy>

*Fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuencid – Cynllun gweithredu* (cyhoeddwyd 1 Hydref 2013)

<http://cymru.gov.uk/topics/educationandskills/skillsandtraining/youthengagement/?lang=cy>

# **Atodiad A: Templed cylch gorchwyl grŵp llywio strategol**

## **Grŵp Llywio Strategol Cefnogi Ymgysylltu ag Addysg, Cyflogaeth a Hyfforddiant**

**Dylai'r cylch gorchwyl gynnwys y canlynol.**

### **Rolau a chyfrifoldebau**

Awgrymir bod y canlynol yn cael eu rhestru fel rolau a chyfrifoldebau.

1. Monitro ac adolygu i ba raddau y mae'r camau gweithredu sydd yn Strategaeth Cefnogi Ymgysylltu ag Addysg, Cyflogaeth a Hyfforddiant yr Awdurdod Lleol yn cael eu rhoi ar waith a'u cyflawni.
2. Cefnogi agwedd 'Y Systemau lawn, y Gefnogaeth lawn, y Ddarpariaeth lawn' at drefniadau gweithio amlasiantaethol ym mhob asiantaeth sector a maes gwasanaeth.
3. Gweithredu fel y grŵp cyfeirio canolog a fydd yn goruchwyllo'r gwaith o ddatblygu ac adolygu'r ddarpariaeth Cefnogi Ymgysylltu ag Addysg, Cyflogaeth a Hyfforddiant ar y cyd â'r awdurdod lleol ar gyfer pobl ifanc 14–25 oed.
4. Defnyddio'r data sydd ar gael yn effeithiol i gynllunio, monitro ac adolygu camau gweithredu yn y strategaeth er mwyn mesur effaith y strategaeth.
5. Cyfrannu tuag at werthusiadau perthnasol o'r gwasanaeth.
6. Sicrhau cyfranogiad ac ymgynghoriad ystyrion â phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd, yn ogystal â rhanddeiliaid perthnasol, a bod yr ymgynghoriad hwn yn sail i'r gwaith o ddatblygu a gweithredu strategaeth Cefnogi Ymgysylltu ag Addysg, Cyflogaeth a Hyfforddiant yr awdurdod lleol.
7. Darparu cyfeiriad a chyfarwyddyd i asiantaethau a staff, lle bo'n briodol, er mwyn integreiddio'u dull o weithio â'r dull pum haen cytunedig o ddarparu gwasanaeth a chefnogaeth i bobl ifanc ôl-16 a threfniadau nodi'n gynnar fel y nodwyd yn strategaeth Cefnogi Ymgysylltu ag Addysg, Cyflogaeth a Hyfforddiant yr awdurdod lleol.
8. Darparu a dosbarthu gwybodaeth berthnasol i asiantaethau a meysydd gwasanaeth unigol ac oddi wrthynt er mwyn nodi a chau bylchau yn y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu a sicrhau llai o ddyblygu.
9. Darparu a chynnal cyswllt ffurfiol rhwng y Grŵp Llywio Cefnogi Ymgysylltu ag Addysg, Cyflogaeth a Hyfforddiant a'r Grŵp Llywio Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid i gefnogi dull cydgyssylltiedig o ddarparu gwasanaethau.



10. Darparu a chynnal cyswllt ffurfiol rhwng y Grŵp Llywio Cefnogi Ymgysylltu ag Addysg, Cyflogaeth a Hyfforddiant a'r Bartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned i gefnogi dull cydgysylltiedig o ddarparu gwasanaethau.
11. Hyrwyddo'r dull strategol cytunedig er mwyn sicrhau bod gwasanaethau sy'n gysylltiedig â Chefnogi Ymgysylltu ag Addysg, Cyflogaeth a Hyfforddiant yn cael eu darparu'n effeithiol i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd.
12. Cyfrannu tuag at y gwaith o ddatblygu a gweithredu strategaethau a mentrau ategol cysylltiedig. Gallai'r awdurdod lleol roi manylion.
13. Manylion am y gofynion adrodd.

## **Aelodaeth**

Dylai aelodaeth y Grŵp Llywio Cefnogi Ymgysylltu ag Addysg, Cyflogaeth a Hyfforddiant, a'i grwpiau gorchwyl a gorffen, gael eu hadolygu a'u cytuno gan yr awdurdod lleol. Wrth i'r awdurdod lleol weithredu'r fframwaith gellid nodi aelodau ychwanegol.

Gallai'r aelodaeth gynnwys y canlynol.

- Adrannau perthynol mewn awdurdodau lleol – y CYD a'r oedolyn sy'n bennaf gyfrifol yn cael eu cynrychioli.
- Ysgolion.
- Gwasanaethau plant.
- Gwasanaethau cymunedol.
- Cymunedau yn Gyntaf.
- Gyrfa Cymru.
- Canolfan Byd Gwaith.
- Gwasanaeth Troseddau Ieuencid.
- Gwasanaeth Prawf.
- Gwasanaethau Iechyd.
- Prifysgolion lleol, darparwyr hyfforddiant (ffederasiwn hyfforddiant cenedlaethol Cymru) a darparwyr y sector gwirfoddol

Dylai pob aelod o'r Grŵp Llywio Cefnogi Ymgysylltu ag Addysg, Cyflogaeth a Hyfforddiant, a grwpiau gorchwyl a gorffen cysylltiedig, fod wedi ymrwymo i gefnogi nodau ac amcanion datganedig yr Awdurdod Lleol sy'n gweithredu'r Fframwaith (drwy Strategaeth Cefnogi Ymgysylltu ag Addysg, Cyflogaeth a Hyfforddiant neu drwy ddull arall a fabwysiedir gan yr awdurdod lleol hwnnw).

## **Cyfarfodydd**

\*\*Cadarnhau pa mor rheolaidd y bydd y grŵp yn cyfarfod \*\*.

Yn y cam gweithredu cychwynnol awgrymir y bydd ar yr awdurdodau lleol eisiau cynnal cyfarfodydd grŵp bob chwarter o leiaf a chyfarfodydd ychwanegol yn ôl y galw i gytuno ar benderfyniadau datblygu megis pennu'r dangosyddion risg a'r trothwyon a sefydlu cytundebau rhannu data gweithredol.

## **Atodiad B: Templed cytundeb rhannu data**

### **Templed i ffurfioli cytundebau rhannu data rhwng awdurdodau lleol ac asiant allweddol**

#### **1. Telerau ac amodau**

Gwneir y cytundeb hwn rhwng **\*\*ASiantaeth\*\*** ac **\*\*awdurdod lleol\*\*** a bydd yn weithredol o **\*\*DYDDIAD\*\*** tan **\*\*DYDDIAD\*\***.

#### **2. Pwrpas y cytundeb**

**\*\*Yma bydd ar yr awdurdod lleol eisiau nodi pa ddata penodol y mae arno eu hangen gan yr asiantaeth ac erbyn pa bryd. Dylai awdurdodau lleol hefyd gadarnhau sut y byddant yn defnyddio'r data \*\*.**

**\*\*Os yw'r awdurdod lleol a/neu'r asiantaeth eisiau i'r cytundeb gael ei wneud gydag aelod penodol o'r staff, byddai Llywodraeth Cymru'n awgrymu'r Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu (CYD) neu arweinydd technegol sy'n gweithio gyda/i'r CYD\*\*.**

#### **3. Atebolrwydd statudol**

**\*\*Bydd angen i awdurdodau lleol sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion yr asiantaethau a chyfreithiau diogelu data cenedlaethol – bydd angen i'r adran hon sicrhau'r asiantaeth na fydd y data'n cael eu defnyddio ar gyfer unrhyw ddiben ar wahân i'r diben y gofynnwyd amdanynt ar ei gyfer\*\*.**

#### **4. Cyfrinachedd**

**\*\*Fel uchod\*\* Gall adrannau fel y rhain leddfu pryderon ynglŷn â chamddefnyddio data.**

#### **5. Diogelu data/mynediad at gyfrifiaduron**

**\*\*Yn yr adran hon dylai awdurdodau lleol gadarnhau pa ddata y mae arnynt angen eu gweld – ar ba lefel a sut y maent yn bwriadu defnyddio'r data hynny. Dylent hefyd gadarnhau y byddant yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol diogelu data\*\*.**

#### **6. Amddiffyn plant**

**\*\*Oherwydd natur y data sydd eu hangen, dylid cadarnhau cydymffurfiad â'r gofynion amddiffyn plant\*\*.**

## 7. Terfynu'r cytundeb

**\*\*Dylid cadarnhau trefniadau terfynu'r cytundeb er mwyn cydymffurfio â hawliau'r ddwy ochr\*\*.**

## 8. Dilysu

**\*\*Awgrymir cytundebau wedi'u llofnodi er mwyn cael atebolrwydd\*\*.**

Llofnodwyd ar ran y sefydliad:	Llofnodwyd ar ran yr ALI:
<b>Llofnod:</b>	<b>Llofnod:</b>
<b>Enw:</b>	<b>Enw:</b>
<b>Teitl swydd:</b>	<b>Teitl swydd:</b>
<b>Dyddiad:</b>	<b>Dyddiad:</b>

## Atodiad C: Templed hysbysiad preifatrwydd

**Yr hyn y mae'r ysgol/darparwr blynyddoedd cynnar, yr awdurdod lleol a Llywodraeth Cymru yn ei wneud â'r wybodaeth addysgol y maent yn ei chadw am blant a phobl ifanc**

### Pwnc trafod

Er mwyn bodloni gofynion Deddf Diogelu Data 1998, mae'n ofynnol i ysgolion roi Hysbysiad Preifatrwydd i blant a phobl ifanc a/neu rieni a gwarcheidwaid yn crynhoi'r wybodaeth sy'n cael ei chadw am blant a phobl ifanc mewn cofnodion, gan nodi pam mae'r wybodaeth yn cael ei chadw, a'r bobl neu'r sefydliadau y ceir rhoi'r wybodaeth honno iddynt.

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn rhoi gwybodaeth am yr hyn sy'n digwydd pan fo Llywodraeth Cymru, awdurdod lleol **XXXXXX** (ALI) ac ysgol/darparwr blynyddoedd cynnar **XXXXXX** yn casglu ac yn prosesu gwybodaeth bersonol am blant a phobl ifanc, ynghyd â gwybodaeth am eu perfformiad.

### Casglu gwybodaeth bersonol

Mae'r ysgol/darparwr blynyddoedd cynnar yn casglu gwybodaeth am blant a phobl ifanc ac am eu rhieni neu eu gwarcheidwaid cyfreithiol pan fo plant a phobl ifanc yn cofrestru gyda'r ysgol/darparwr blynyddoedd cynnar. Mae'r ysgol/darparwr blynyddoedd cynnar yn casglu gwybodaeth ar adegau allweddol eraill yn ystod y flwyddyn ysgol hefyd ac mae'n bosibl y byddant yn cael gwybodaeth oddi wrth ysgolion/darparwyr blynyddoedd cynnar eraill pan fo plant a phobl ifanc yn newid ysgol/darparwr.

Mae'r **ysgol/darparwr blynyddoedd cynnar** yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir i weinyddu'r addysg y mae'n ei darparu ar gyfer plant a phobl ifanc. Er enghraifft:

- darparu gwasanaethau addysgol i unigolion
- monitro ac adrodd am gynnydd addysgol y dysgwyr/plant
- darparu gwasanaethau lles, gofal bugeiliol a gwasanaethau iechyd
- rhoi cefnogaeth ac arweiniad i blant a phobl ifanc, eu rhieni a'u gwarcheidwaid cyfreithiol
- trefnu digwyddiadau a theithiau addysgol
- cynllunio a rheoli'r ysgol.

### Llywodraeth Cymru a'r awdurdod lleol (ALI)

Fel arfer, mae gwybodaeth am ddysgwyr ysgol yn dod i law Llywodraeth Cymru fel rhan o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD). Mae'n bosibl y bydd Llywodraeth Cymru yn cael gwybodaeth am blant mewn darpariaeth blynyddoedd cynnar sy'n cael ei hariannu gan yr ALI ac sy'n cael ei chynnig mewn

lleoliadau nas cynhelir. Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth bersonol hon er mwyn gwneud gwaith ymchwil (sy'n cael ei wneud mewn modd sy'n sicrhau na ellir adnabod plant a phobl ifanc) ac at ddibenion ystadegol, er mwyn llywio polisi addysg, dylanwadu arno a'i wella, ac er mwyn monitro perfformiad y gwasanaeth addysg yn ei gyfanrwydd. Cewch weld enghreifftiau o'r mathau o ystadegau a gaiff eu paratoi yn [www.cymru.gov.uk/statistics-and-research/?skip=1&lang=cy](http://www.cymru.gov.uk/statistics-and-research/?skip=1&lang=cy)

Mae'r ALI hefyd yn defnyddio'r wybodaeth bersonol a gesglir i wneud gwaith ymchwil. Mae'n defnyddio canlyniadau'r ymchwil hon i wneud penderfyniadau am bolisi ac am ariannu ysgolion, i asesu perfformiad ysgolion a'u helpu i osod targedau. Mae'r ymchwil yn cael ei gwneud mewn modd sy'n sicrhau na ellir adnabod plant a phobl ifanc unigol.

Mae Llywodraeth Cymru a'r ALIau yn cael gwybodaeth hefyd am ganlyniadau asesiadau'r cwricwlwm cenedlaethol ac arholiadau cyhoeddus, ynghyd â data am bresenoldeb ar lefel dysgwyr unigol.

## **Yr wybodaeth bersonol a gedwir**

Mae'r math o wybodaeth bersonol a gedwir yn cynnwys:

- manylion personol megis enw, cyfeiriad, dyddiad geni, dynodydd y plentyn/person ifanc a manylion cyswllt rhieni a gwarcheidwaid
- gwybodaeth am unrhyw anghenion addysgol arbennig
- gwybodaeth am berfformiad mewn asesiadau ac arholiadau mewnol a chenedlaethol
- gwybodaeth am dras ethnig a hunaniaeth genedlaethol plant a phobl ifanc (dim ond er mwyn paratoi dadansoddiadau ystadegol cryno y defnyddir yr wybodaeth hon)
- manylion am statws mewnfudo plant a phobl ifanc (dim ond er mwyn paratoi dadansoddiadau ystadegol cryno y defnyddir yr wybodaeth hon)
- gwybodaeth feddygol y mae ei hangen er mwyn cadw'r plant a'r bobl ifanc yn ddiogel tra bônt dan ofal yr ysgol/darparwr blynyddoedd cynnar
- gwybodaeth am bresenoldeb ac am unrhyw gamau disgyblu a gymerwyd
- gwybodaeth am unrhyw gysylltiad rhwng y gwasanaethau cymdeithasol a phlant a phobl ifanc unigol, os oes angen cysylltiad o'r fath er mwyn gofalu am y plentyn/person ifanc.

## **Sefydliadau sy'n cael rhannu gwybodaeth bersonol**

Caiff yr ysgol, darparwyr blynyddoedd cynnar, yr ALI a Llywodraeth Cymru rannu'r wybodaeth a gedwir am blant a phobl ifanc, ac am eu rhieni neu'u gwarcheidwaid cyfreithiol gyda sefydliadau eraill pan fydd y gyfraith yn caniatáu hynny, er enghraifft:

- cyrff addysg a chyrrff hyfforddi eraill, gan gynnwys ysgolion, pan fydd plant a phobl ifanc yn gwneud cais i fynd ar gyrsiau, i gael hyfforddiant, i newid ysgol neu pan fyddant yn gofyn am gyngor ar gyfleoedd

- cyrff sy'n gwneud ymchwil ar ran Llywodraeth Cymru, yr ALI a'r ysgolion/darparwyr blynyddoedd cynnar, cyn belled ag y cymerir camau i gadw'r wybodaeth yn gyfrinachol
- llywodraeth ganolog a lleol er mwyn cynllunio a darparu gwasanaethau addysgol
- gwasanaethau cymdeithasol a sefydliadau iechyd a lles eraill pan fo angen rhannu wybodaeth er mwyn amddiffyn a chynorthwyo plant a phobl ifanc unigol
- amryfal gyrff rheoleiddio, megis ombwdsmyrn ac awdurdodau arolygu, pan fo'r gyfraith yn dweud bod yn rhaid trosglwyddo'r wybodaeth honno er mwyn iddynt allu gwneud eu gwaith
- y Swyddfa Ystadegau Gwladol er mwyn gwella ansawdd yr ystadegau am ymfudo a'r boblogaeth.

Mae gan blant a phobl ifanc hawliau penodol o dan y Ddeddf Diogelu Data, gan gynnwys hawl gyffredinol i gael gweld data personol y mae unrhyw 'reolydd data' yn eu cadw amdanynt. Rhagdybir bod plant a phobl ifanc yn ddigon aeddfed yn 12 oed i ddeall eu hawliau ac i wneud cais drostynt eu hunain i weld yr wybodaeth, os dyna'u dymuniad. Fel arfer, byddai disgwyl i riant wneud cais ar ran plentyn sy'n iau na hynny.

Os hoffech weld y data personol sy'n cael eu cadw amdanoch chi, neu am eich plentyn, dylech anfon cais ysgrifenedig at y sefydliad perthnasol. Mae manylion y sefydliad hwn i'w gweld ar y wefan a ganlyn **[gwefan yr ysgol neu'r ALI]**. Os nad yw hyn yn ymarferol i blant a phobl ifanc na'u rhieni, dylent ofyn i'r ysgol am gopi caled drwy gysylltu â **[rhowch y manylion cyswllt]**.

### **Pobl ifanc sy'n 14 oed neu'n hŷn**

Bydd yr wybodaeth a ddarperir gennych yn cael ei defnyddio gan Brif Weithredwr yr Asiantaeth Ariannu Sgiliau i roi Rhif Unigryw'r Dysgwr i chi, ac i greu'ch Cofnod Dysgu Personol. Mae rhagor o fanylion am sut y mae gwybodaeth amdanoch yn cael ei phrosesu a'i rhannu i'w gweld ar wefan y Gwasanaeth Cofnodion Dysgu [www.learningrecordsservice.org.uk](http://www.learningrecordsservice.org.uk)

### **Gwybodaeth arall**

Mae cadw gwybodaeth yn ddiogel yn bwysig iawn i Lywodraeth Cymru, i'r ALI ac i'r ysgol/darparwr blynyddoedd cynnar, ac mae ganddynt nifer o weithdrefnau er mwyn lleihau unrhyw berygl posibl i ddiogelwch yr wybodaeth honno.

Bydd Llywodraeth Cymru, yr ALI a'r ysgol/darparwr blynyddoedd cynnar yn ceisio sicrhau bod yr wybodaeth a gedwir yn gywir bob amser. Ni fydd gwybodaeth bersonol yn cael ei hanfon y tu allan i'r Deyrnas Unedig.

## Eich hawliau o dan Ddeddf Diogelu Data 1998

Mae Deddf Diogelu Data 1998 yn rhoi hawliau penodol i unigolion o ran yr wybodaeth bersonol a gedwir amdanynt gan unrhyw sefydliad. Ymhlith yr hawliau hyn mae:

- yr hawl i ofyn am weld a chael copi'au o'r wybodaeth bersonol a gedwir **amdanoch chi**, er bod cyfiawnhad weithiau dros gadw peth gwybodaeth yn ôl
- yr hawl, o dan rai amgylchiadau, i atal gwybodaeth bersonol rhag cael ei phrosesu pe byddai hynny'n achosi niwed neu ofid
- yr hawl i ofyn am gael cywiro gwybodaeth sy'n anghywir
- yr hawl i ofyn am iawndal os nad yw sefydliad yn cadw at Ddeddf Diogelu Data 1998 a'ch bod chi'n bersonol yn dioddef niwed
- o dan rai amgylchiadau **mae'n bosibl** y bydd gan riant neu warcheidwad cyfreithiol plentyn neu berson ifanc yr hawl i gael copi o'r data personol a gedwir am blentyn/person ifanc sydd o dan eu gofal cyfreithiol hwy. Bydd achosion o'r fath yn cael eu hystyried yn unigol os bernir nad oes gan yr unigolyn ddigon o ddealltwriaeth o'i hawliau o dan y Ddeddf.

Mae gennych yr hawl hefyd i ofyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth, sy'n gyfrifol am orfodi a goruchwyllo Deddf Diogelu Data 1998, asesu a yw'n debygol bod yr wybodaeth wedi cael ei phrosesu yn unol â darpariaethau'r Ddeddf ai peidio.

## Gofyn am ragor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am yr wybodaeth bersonol a gasglwyd ac ynghylch sut mae'n cael ei defnyddio, neu os ydych yn pryderu ynghylch pa mor gywir yw'r wybodaeth honno, neu os ydych yn dymuno arfer eich hawliau o dan Ddeddf Diogelu Data 1998, dylech gysylltu â:

- yr ysgol/darparwr blynyddoedd cynnar ar **XXXX XXXXXX**
- eich ALI ar **XXXX XXXXXX**
- Swyddog Diogelu Data Llywodraeth Cymru, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ
- llinell gymorth swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar 01625 545 745 neu 0303 123 1113
- mae gwybodaeth ar gael hefyd oddi wrth [www.ico.gov.uk](http://www.ico.gov.uk)



## Atodiad D: Gweithio gyda Gyrfa Cymru

Gan gydnabod y bydd gan bob ALI ac ysgol systemau er mwyn nodi pobl ifanc a allai fod mewn perygl o fod yn NEET, bydd Gyrfa Cymru'n gweithio mewn partneriaeth er mwyn sicrhau dull cydlynol o nodi'r grŵp sy'n cael ei dargedu a chytuno yn dilyn hynny ar gyfuniad priodol o ryngweithiadau. Yn ymarferol, bydd hyn yn golygu y bydd Gyrfa Cymru'n defnyddio:

- data mewn perygl o fod yn NEET yr awdurdod lleol i ddechrau, h.y. proffiliau asesiad disgyblion agored i niwed a dulliau cyfatebol
- ffynonellau eraill sy'n cynnwys data ysgolion, h.y. dangosyddion NEET CYBLD a data ysgolion os nad oes gan ALLau set ddata mewn perygl o fod yn NEET.

Yn ystod tymor yr haf bydd cynghorydd gyrfaoedd yn cyfarfod pob ysgol (neu ddarparwr arall/Gwasanaeth leuenctid, ac ati) i gynllunio rhyngweithiadau Gyrfa Cymru ar gyfer y dysgwyr hynny sy'n cael eu hystyried mewn perygl o fod yn NEET. Bydd y cyfarfodydd yn canolbwyntio'n bennaf ar:

- nodi pobl ifanc ym Mlwyddyn 10 sydd mewn perygl o fod yn NEET ac a fydd yn cael y budd mwyaf o ryngweithio â Gyrfa Cymru
- cytuno ar gyfuniad o ryngweithiadau Gyrfa Cymru i gefnogi'r dysgwyr a nodwyd, gan ystyried yr holl ryngweithiadau eraill a gynlluniwyd. Er enghraifft, y Gwasanaeth leuenctid neu ddarpariaeth arall.

### Cynllunio effeithiol a rheoli llwyth achosion

Cyn gynted ag y bydd y dysgwyr sydd mewn perygl o fod yn NEET wedi cael eu nodi, ac os cytunwyd mai'r ffordd orau o ddiwallu eu hanghenion yw drwy wasanaethau Gyrfa Cymru, bydd cynghorydd gyrfaoedd yr ysgol yn gweithio gyda'r ysgol ac eraill (e.e. y Gwasanaeth leuenctid), i gynllunio a darparu cyfuniad priodol o ryngweithiadau i gynorthwyo pob person ifanc i fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.

Mae agwedd Gyrfa Cymru at weithio gyda phobl ifanc y bernir eu bod mewn perygl o fod yn NEET yn seiliedig ar yr egwyddorion a ganlyn.

- Bydd y cynghorydd gyrfaoedd yn cytuno ar raglen ar gyfer y gwaith gyda'r ysgol neu ddarparwr arall a fydd yn ystyried darpariaeth sefydliadau eraill sy'n bartneriaid, e.e. y Gwasanaeth leuenctid.
- Ystyrir amgylchiadau pob dysgwr unigol yn y cam cynllunio.
- Bydd y cynghorydd gyrfaoedd yn monitro cynnydd dysgwyr sy'n rhan o'u llwyth achosion ac yn cytuno ar adolygiadau llwyth achosion gyda'r ysgol (a'r Gwasanaeth leuenctid) yn rheolaidd. Pwrpas hyn yw trafod y garfan a chynnydd dysgwyr unigol fel y bo'n briodol.

## Cymorth trosglwyddo

Bydd y cynghorydd gyrfaoedd yn gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion a sefydliadau sy'n bartneriaid i ddarparu cymorth trosglwyddo priodol. Dull gweithredu Gyrfya Cymru yw asesu parodrwydd pob dysgwr ar gyfer trosglwyddo i'r llwybr ôl-16 o'i ddewis. Bydd hyn yn galluogi Gyrfya Cymru i weithio gyda phartneriaid lleol a darparwyr cyfleoedd i ddatblygu dull sy'n seiliedig ar wybodaeth o hwyluso trosglwyddiad pob dysgwr i lwybr ôl-16 priodol a chynaliadwy.

## Model pum haen

Er mwyn helpu i weithredu'r *Fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuenctid*, mae Gyrfya Cymru wedi gweithio mewn partneriaeth â'r Adran Addysg a Sgiliau i ddatblygu model sy'n mesur ac yn olrhain statws ymgysylltu pobl ifanc 16 i 18 oed yn fisol ac ar sail ddaearyddol (yn ôl ALI) y cyfeirir ato fel y model pum haen.

Gan ddefnyddio cronfa ddata cleientiaid Gyrfya Cymru bydd statws ymgysylltu pobl ifanc 16–18 oed yn cael ei olrhain a'i adrodd i Lywodraeth Cymru ac ALLau gan ddefnyddio'r system haenau sydd wedi'u diffinio fel a ganlyn.

Diffiniadau'r model pum haen:

- Haen 5:** Yn cynnal ymgysylltiad ag Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant.
- Haen 4:** Mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant ond wedi'u nodi fel rhai sydd mewn perygl o roi'r gorau iddo/mewn swydd heb hyfforddiant.
- Haen 3:** Di-waith: naill ai wrthi'n chwilio am Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant, neu angen cefnogaeth 'cyffyrddiad ysgafn' i fod yn barod i fynd i Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant.
- Haen 2:** Yn methu â mynd i Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant: naill ai oherwydd amgylchiadau (gofalwr ifanc; beichiogrwydd; yn y ddalfa; salwch) neu oherwydd rhwystrau sylweddol neu niferus sydd angen cefnogaeth ddwysach.
- Haen 1:** Gyrfya Cymru ddim yn gwybod amdanynt.

Mae gan y model pum haen rôl bwysig i'w chwarae yn y *Fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuenctid*; mae'n rhoi diffiniadau cyffredin i bartneriaid ac yn darparu llwyfan cyson ar gyfer rhannu data. Mae'r model yn sicrhau bod ALLau yn cael data ymgysylltu pob person ifanc 16–18 oed er mwyn eu trosglwyddo i lwybr ôl-16 priodol a chynaliadwy.

Er 1 Tachwedd 2013, mae Gyrfya Cymru wedi rhoi data misol i Gyrfya Cymru wedi'u mapio ar sail y pump haen er mwyn hwyluso datblygiad parhaus strategaethau ymgysylltu.